



Bwletin Awdurdod S4C
Cyfarfod 349 – 20 Hydref 2011
S4C, Caerdydd

Mae'r bwletin hwn yn adrodd ar gyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 20 Hydref 2011.

1. Materion yn codi o gofnodion cyfarfod 348

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 348.

2. Adroddiad y Cadeirydd

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad.

3. Adroddiad y Prif Weithredwr

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei adroddiad.

Trafodaethau gyda DCMS/BBC

Mae Ymddiriedolaeth y BBC yn cyfarfod dydd Llun ac fe fydd S4C a'r ddogfen ar y cyd ar yr agenda. Nodwyd bod disgwyl i'r Ymddiriedolaeth gyflwyno eu cynlluniau i ariannu S4C o 2015 - 2017 ar ôl eu cyfarfod ar ddydd Llun.

Cyfeiriodd AEO at welliannau i'r Mesur Cyrff Cyhoeddus. Cafwyd trafodaeth am rhai materion sydd dal heb eu datrys ac a geir yn y ddogfen "Sefyllfa ar y Cyd ar Ddyfodol Llywodraethiant ac Atebolrwydd S4C".

Nodwyd bod pwyllgor Newyddion wedi ei greu yn barod ac yn gweithio'n dda.

Awgrymwyd y dylid aros i weld beth fydd cylch gwaith y Cyfarfod ar y cyd rhwng swyddogion y BBC ac S4C cyn gwneud unrhyw benderfyniad.

Mesuriadau Gwasanaeth Radio Cymru/BBC Alba

Er gwybodaeth, cyflwynodd AEO adolygiad Ymddiriedolaeth y BBC o Radio Cymru ac erthygl ar ffigyrau gwyllo BBC Alba gan dynnu sylw at y targedau a ddefnyddir.

Adolygiad Effeithlonrwydd ac Arloesi gan Richie Turner

Cyflwynwyd dogfen yn amlinellu ymateb y Tim Rheoli a'r Awdurdod i adroddiad Richie Turner ar Adolygiad Effeithlonrwydd ac Arloesi yn S4C. Cytunwyd y dylid cyhoeddi'r ymateb ochr yn ochr â'r adroddiad gwreiddiol yn dilyn unrhyw sylwadau pellach gan yr Awdurdod.

4. Cymeradwyo Cylchoedd Gorchwyl Newydd Pwyllgorau'r Awdurdod

Yn dilyn mân newidiadau cymeradwyodd yr Awdurdod cylchoedd gorchwyl newydd pwyllgorau'r Awdurdod sy'n ymgorffori argymhellion adroddiad Shortridge.

5. Cynllun Corfforaethol 2011

Cyflwynwyd copi o Gynllun Corfforaethol 2011 oedd yn cynnwys targedau newydd mwy perthnasol. Cymeradwyodd yr Awdurdod y Cynllun a'r targedau newydd.

6. Patagonia

Nodwyd bod Patagonia wedi'i dewis gan BAFTA fel cynnig y Deyrnas Unedig yng nghategori Iaith Dramor gwobrau'r Oscars yn 2012. Roedd AEO wedi ysgrifennu at y tim cynhyrchu a'r cast i'w llongyfarch ar yr enwebiad. Ategodd yr Awdurdod eu llongyfarchiadau i bawb.

7. Adroddiad y Cyfarwyddwr Comisiynu

Adroddiad Digwyddiadau

Cytunodd yr Awdurdod y dylid cyflwyno'r adroddiad i'r Pwyllgor Cynnwys ym mis Rhagfyr.

Adroddiad Comisiynu

Cyflwynodd GR ei adroddiad ysgrifenedig. Cyfeiriodd at ddarpariaeth S4C o Gwpan Rygbi'r Byd gan dynnu sylw at y ffigyrau gwyllo boddhaol er y gystadleuaeth gan ddarpariaeth ITV. Canmolwyd safon tîm cynhyrchu a sylwebu S4C a'r drafodaeth a'r dadansoddi o safon uchel.

Rhoddodd GR ddiweddariad ar y broses gomisiynu. Nododd fod y tîm comisiynu wedi cyfarfod gyda nifer o'r cwmnïau a'u bod yn symud ymlaen i gomisiynu rhaglenni ar gyfer 1af o Fawrth ymlaen.

Dyweddodd y Cadeirydd ei fod wedi cyfarfod â swyddogion TAC oedd am nodi pryderon yr aelodau gyda sawl agwedd o'r broses gomisiynu.

8. Materion Eraill

Yn ogystal, trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad Ymchwil
- Adroddiad Gwifren
- Adroddiad Cyllid
- Materion Personél
- Adroddiad o'r Bwrdd Masnachol
- Adroddiad o'r Fforwm Cyfryngau Newydd